**PWYLLGOR ARCHWILIO 27-09-10**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John P. Roberts (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Gethin G. Williams (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** E.T. Dogan, Huw Edwards, Margaret Griffith, Selwyn Griffiths, Charles W. Jones, Dewi Owen, Ioan Thomas, Gwilym O. Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Archwilio a Risg), William E. Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Ffion M. Evans (Rheolwr Cyllid Adnoddau a Chorfforaethol), Helen Williams (Prif Gyfrifydd Cyfalaf a Rheolaeth), Marina Parry Owen (Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau), Adrian Williams (Rheolwr Traffig a Datblygu), Amanda Hughes (Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru), Alan Hughes (Arweinydd Tîm Archwilio Cyllidol Swyddfa Archwilio Cymru) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Aeron Jones, Evie M. Jones, R.L. Jones, Richard Ll. Jones

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn yr eitem ganlynol am y rhesymau a nodir –

Y Cynghorwyr Margaret Griffith a Selwyn Griffiths yn yr eitem yn ymwneud ag Ysgol Eifionydd, Porthmadog gan eu bod yn aelodau o gorff llywodraethol yr ysgol.

'Roedd yr aelodau o'r farn nad oeddynt yn fuddiannau a oedd yn rhagfarnu ac ni adawsant y cyfarfod a chymerwyd ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitemau perthnasol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2010, fel rhai cywir.

## 3. CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL

**a) Adroddiad i'w ystyried ar gais y Cadeirydd – Gorchmynion Ffyrdd**

Adroddwyd gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod Cadeirydd y Pwyllgor wedi gwneud cais i swyddogion o'r Adran Rheoleiddio fynychu'r cyfarfod er mwyn gallu ateb unrhyw gwestiynau a allai godi o'r adroddiad archwiliad "Gorchmynion Ffyrdd".

'Roedd hyn yn dilyn ystyriaeth o'r adroddiadau archwiliad mewnol a ryddhawyd yn ystod y cyfnod rhwng 1 Mehefin a 31 Awst 2010. Ychwanegodd y swyddog mai bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheoliadau mewn lle ar gyfer mabwysiadu gorchmynion traffig ar ffyrdd sirol

Cyngor Gwynedd. Nododd mai'r Cynulliad sy'n gyfrifol am orchmynion traffig ar gefnffyrdd Gwynedd.

Derbyniodd yr adroddiad Gategori Barn C, sef na ellid datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau'r Adran Rheoleiddio ar gyfer creu a gweithredu Gorchmynion Ffyrdd gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion/twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Nododd y cynhaliwyd profion archwilio ar 27 rheolaeth fewnol, a dangosodd y profion bod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 11 o'r meysydd hyn. Hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg mai prif ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd –
a) Cyfarwyddiadau anghywir wedi eu hanfon at yr Uned Gyfreithiol.
b) Diffyg polisi a chanllawiau sy'n dogfennu'r drefn ar gyfer penderfynu gweithredu a mabwysiadu cyfyngiadau cyflymder yng Ngwynedd.
c) Anodd olrhain hanes gweithrediad gorchymyn oherwydd y drefn ffeilio o fewn yr Uned Drafnidiaeth a Gofal Stryd.

Nododd y swyddog bod yr archwiliad hwn yn dilyn o archwiliadau cyffelyb a wnaed ychydig flynyddoedd yn ôl. Cyfeiriodd at ddigwyddiad ger yr amlosgfa ym Mangor yn 2006/07 lle cafodd nifer o yrrwyr ddirwyon am or-yrru o fewn cyfyngiad o 30mya, ond fe benderfynodd Gwasanaeth Erlyn y Goron nad oeddynt yn gallu parhau i erlyn y gyrrwyr ar sail technegol oherwydd bod dau orchymyn traffig yn bodoli ar y rhan hon o'r ffordd ac y dylai un ohonynt fod wedi cael ei ddiddymu. Cafwyd digwyddiadau cyffelyb yn y Bala a ger Clynnog. Dylid sicrhau nad oes digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol. Nododd ymhellach y cynhaliwyd yr archwiliad er canfod sut y symudwyd ymlaen ers 2007 i sicrhau nad yw'r camgymeriadau hyn yn digwydd eto. Yn anffodus, sylwyd bod y symudiad wedi bod yn eithaf araf ac y gallai'r un camgymeriadau ddigwydd eto ac y dylid cael sicrwydd gan yr Adran Rheoleiddio y cymerir camau ganddynt i rwystro camgymeriadau rhag digwydd yn y dyfodol. Efallai na fyddai'r risg ariannol i'r Cyngor yn uchel ond 'roedd yn bosibl y gallai'r heddlu gymryd achos yn erbyn y Cyngor ar sail esgeulustod swyddogion

Mewn ymateb i'r pwyntiau uchod, hysbysodd y Rheolwr Traffig a Datblygu y cymerwyd y materion y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad o ddifrif a bod swyddog o'r adran wedi archwilio'r ffeiliau perthnasol yn yr Uned Gyfreithiol er sicrhau na wneir yr un camgymeriadau eto. Ceisir gwneud pob ymdrech i chwilio am hen orchmynion sydd ar safle ac os y canfyddir rhai, fe'u diddymir yn y gorchymyn newydd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd i reolwyr yr Adran Rheoleiddio er gweithrediad.**

**b) Gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 31 Awst 2010**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Mehefin a 31 Awst 2010. Wrth gyflwyno'r wybodaeth am y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod cyfeiriodd y swyddog at -

- 24 o adroddiadau ffurfiol am archwiliadau o'r cynllun archwilio blynyddol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos.
- 5 archwiliad dilyniant.
- 1 archwiliad ymatebol

Tynnwyd sylw gan y swyddog y gofynnwyd ym mhwyllgor mis Gorffennaf 2010 am fwy o fanylion parthed archwiliad o'r system RAISE a rhoddodd fanylion am gefndir yr archwliad i'r aelodau.

Adroddwyd ar waith pellach sydd ar y gweill gan Archwilio Mewnol. 'Roedd hyn yn cynnwys 6 o adroddiadau drafft sydd wedi eu rhyddhau a 42 o archwiliadau sy'n mynd rhagddynt.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r crynodebau gweithredol o fewn yr atodiadau'n unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol –

**Grant Ysgolion Bro Llywodraeth Cynulliad Cymru**

Gofynnodd aelod am eglurhad parthed yr argymhelliad "y dylid sicrhau bod anfonebau priodol sy'n cyd-fynd â'r taflenni amcangyfrifiedig a dderbyniwyd yn cael eu derbyn i gefnogi cais tymor y gwanwyn 2010 Ysgol Syr Hugh Owen". Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod y grant hwn yn cael ei weinyddu'n ganolog gan yr Adran Addysg ac yna fe ddyrennir yr arian i'r ysgolion. Bydd angen i'r ysgolion wedyn gyflwyno tystiolaeth bod yr arian wedi ei wario. Yn yr achos hwn, sylwyd nad oedd yr holl ddogfennau angenrheidiol wedi eu dychwelyd i'r Adran Addysg gan Ysgol Syr Hugh Owen.

**Cytundebau ESCROW**

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg pan brynnir meddalwedd, mae'n ddibynnol wedyn ar y cwmni sy'n darparu'r meddalwedd i'w gefnogi a.y. Os digwydd i'r cwmni fynd yn fethdalwr ac yn methu ei gefnogi yna gellir dod i gytundeb gyda thrydydd parti ar gyfer y meddalwedd. Gelwir y math hwn o drefniant yn gytundeb "Escrow".

**Bryn Afon**

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg mai llety cefnogol ar gyfer ieuenctid gydag anabledd dysgu yn Harlech yw Bryn Afon. Nododd i'r adroddiad dderbyn categori barn "C" a bod angen tynhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.

**Cydymffurfiaeth gyda gofynion CoCo**

Gofynnodd aelod am eglurhad am y term CoCo. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg mai safon diogelwch gwybodaeth yw'r system hon lle caiff gwybodaeth sensitif am unigolion ei basio rhwng y Cyngor a chyrff cyhoeddus eraill.

**Patrymau Gwariant Gwasanaethau Anabledd Dysgu**

Nododd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg i'r mater hwn gael ei drafod gan y Prif Bwyllgor Craffu ar 1 Gorffennaf 2010.

**Gorwariant Ysgol Tanygrisiau**

Nododd aelod na chynhaliwyd cyfarfod o Is-banel Cyllid na Chorff Llywodraethol yr ysgol rhwng Gorffennaf 2007 a Gorffennaf 2008 a hynny mewn cyfnod lle 'roedd cyllideb yr ysgol mewn sefyllfa ddyrys iawn. 'Roedd

o’r farn y dylid tynnu sylw ysgolion at yr angen i’r rhain gyfarfod yn weddol gyson. Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Cyllid nad oes grym gan y Cyngor i orfodi cyrff llywodraethol ysgolion i sefydlu Is-banel Cyllid. ‘Roedd yn ymwybodol bod rhai cyrff llywodraethol wedi sefydlu Is-banel Cyllid a oedd yn arfer da ond ‘roedd cyrff llywodraethol eraill o’r farn mai mater i’r corff llawn yw trafod cyllideb ysgolion. Nododd ei bod yn bwysig bod y cyrff llywodraethol yn cyfarfod o leiaf dwy neu dair gwaith y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD ysgrifennu at yr ysgolion yn tynnu i’w sylw y dylent gynnal cyfarfod o’r corff llywodraethol bob tymor gan argymell iddynt hefyd sefydlu Is-banel Cyllid, ac anfon copi o’r llythyr at yr Adran Addysg.**

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Mehefin i 31 Awst 2010 a chefnogi’r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

## 4. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2010/11

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn rhoddi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2010/11.

Rhoddodd fanylion am y sefyllfa fel ag yr oedd ar 5 Medi 2010 yn ogystal â’r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad hyd yma. Tynnwyd sylw at y tabl canlynol sy’n datgelu statws cyfredol y gwaith yn y cynllun gweithredol -

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 42 |
| Crewyd papurau gwaith | 13 |
| Gwaith maes ar y gweill | 22 |
| Cwblhawyd Gwaith Maes | 4 |
| Disgwyl Adolygiad | 1 |
| Adroddiad Drafft | 6 |
| Adroddiad Terfynol | 15 |
| **Cyfanswm** | **103** |
| | |
| Wedi ei ganslo | 1 |

Hysbysodd mai targed perfformiad 2010/11 yw i gael 85% o archwiliadau’r cynllun addasiadau unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2011. Rhoddodd fanylion am broffil y dangosydd fesul chwarter. Er mwyn cyrraedd targed diwedd yr ail chwarter, rhoddodd fanylion am yr adroddiadau y disgwylir eu rhyddhau’n derfynol erbyn 30 Medi 2010 yn ychwanegol i’r 15 adroddiad sydd eisoes wedi eu rhyddhau’n derfynol.

Mewn perthynas ag addasiadau i’r cynllun, rhoddodd y swyddog fanylion am yr addasiadau hynny i’r aelodau.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2010/11.**

5. **DATGANIAD CYFRIFON 2009/10**

**i) Datganiad o'r Cyfrifon**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid y datganiadau ariannol statudol diwygiedig am gymeradwyaeth y pwyllgor. Nododd bod yr adroddiadau sy'n dilyn gan Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi'r prif newidiadau yn y cyfrifon.

Mewn perthynas â chronfa'r diweddar Mrs Florence Merthyr Guest Morgan, nododd aelod bod y gwariant yn £3,800 yn 2009/10 o'i gymharu â £8,400 yn 2008/9 a gofynnodd sut fyddai'n bosibl i aelodau gael gwybodaeth llawn am y gronfa a chyfle i ddylanwadu'n briodol. Yn wyneb y ffaith bod yr Is-bwyllgor Elusennau erbyn hyn wedi ei ddileu, awgrymodd y dylai'r manylion am y gronfa gael eu cyflwyno i ystyriaeth Pwyllgor Ardal Dwyfor. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid i'r aelod godi'r mater yn y cyfarfod diwethaf. Nododd bod y gronfa hon a Chronfa'r Degwm yn cael eu trafod yn y gorffennol gan yr Is-bwyllgor Elusennau sydd bellach wedi ei ddiddymu. Erbyn hyn mae trefniadau gweinyddol Cronfa'r Degwm wedi eu trosglwyddo i'r Adran Economi a Chymuned dan ymbarel Cist Gwynedd ond nid yw'r ymddiriedolaethau eraill wedi eu trosglwyddo yn yr un modd ac yn dilyn ymholiadau pellach nid oes fforwm penodol wedi ei ddynodi ar hyn o bryd i'w trafod. Trafodwyd y mater gyda'r Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol a'r Rheolwr Cyfreithiol gan ofyn iddynt gysylltu ymhellach â'r aelod, ond ymddengys nad yw hynny wedi digwydd. Addawodd ddilyn y mater i fyny ymhellach.

Gofynnodd aelod pwy sy'n gyfrifol am bennu lefi'r Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Cyllid mai'r Awdurdod ei hunain sy'n gyfrifol am hynny a dylai'r aelodau sy'n cynrychioli'r awdurdodau lleol ar yr Awdurdod Tân sicrhau na fydd cynnydd afresymol i'w ariannu gan gynghorau'r gogledd erbyn 2011/12.

**ii) Adroddiad ffurfiol "ISA 260"**
**a) Datganiadau Cyfrifon 2009/10 Cyngor Gwynedd**

Yn unol â threfn Archwilio Blynyddol "ISA 260", sef adroddiad yr Archwilydd Penodedig i'r rhai sy'n llywodraethu, cyflwynwyd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC). 'Roedd Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru'n bresennol i gyflwyno'r wybodaeth.

Adroddwyd bod y Cyngor yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol i gyflwyno'r sefyllfa ariannol fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2010 yn ogystal a'r incwm a'r gwariant yn y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol am gynnal archwiliad ac adrodd os ydynt o'r farn bod yr adroddiadau'n cyflwyno'r sefyllfa ariannol yn gywir a theg ar ddiwedd blwyddyn. Hysbysodd bod yr Archwilydd Penodedig yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar gyfrifon Cyngor Gwynedd am 2009/10.

Yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru cyfeiriwyd at rai pryderon a chyfeiriodd y Rheolwr Lleol SAC at y rhain yn unigol gan nodi gwelliannau posibl. Tynnodd sylw eto at yr un camddatganiad na chywiriwyd, heblaw mân gamddatganiadau a ddiffinnir fel rhai sy'n ddibwys. Nododd bod gan y Cyngor rwymedigaeth mewn perthynas â chostau capio ac ôl-ofal safle gwaredu

gwastraff Cilgwyn ac ym marn yr archwiliwr ‘roedd darpariaeth y Cyngor ar ei gyfer ar 31 Mawrth 2010, yn annigonol i ariannu’r holl waith sy’n ofynnol i gapio’r safle’n derfynol yn 2024/25. Er mwyn cydymffurfio â FRS 12, dylai’r Cyngor fod wedi cynyddu’r ddarpariaeth hyd at y swm llawn er mwyn cydnabod y rhwymedigaeth yn briodol yn natganiadau ariannol 2009/10. Nid yw’r Cyngor wedi gwneud hynny ond fe neilltuwyd adnodd rhannol mewn cronfeydd cyfalaf wrth gefn neilltuedig a chyllidebau cyfalaf. Ym marn yr archwiliwr ‘roedd angen cywiro’r camddatganiad a darparu £1.548m ychwanegol er gellir ariannu £1.241m o’r arian hwn o’r cronfeydd cyfalaf wrth gefn neilltuedig a ddelir ar y fantolen. Gan nad yw’r Cyngor yn fodlon cywiro’r camddatganiad hwn, nodwyd yr angen i nodi’r rhesymau tros beidio mewn llythyr.

Mewn ymateb i’r uchod, hysbysodd y Pennaeth Cyllid ei fod yn gyffredinol yn diolch am waith yr archwilwyr ac yn croesawu cynnwys adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, yn enwedig y bwriad i gyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y cyfrifon.

Hysbysodd yr Uwch Reolwr Cyllid y codwyd mater ariannu cost capio Cilgwyn yn y cyfarfod hwn y llynedd ac ers hynny bod y Cyngor, drwy’r rhaglen gyfalaf, wedi neilltuo ychydig tros £3m at y gwaith capio cychwynnol, tra bod yna gydnabyddiaeth hefyd, trwy ymrwymiad ar gyfer 2011/12 o tua £200,000. Ymhen rhwy bymtheg mlynedd wedyn (oddeutu 2026/27) bydd angen ymgymryd â gwaith capio terfynol, a rhagwelir y byddai’r gost oddeutu £985,000. Nododd ymhellach i’r Cyngor wneud darpariaeth o £800,000 at y gwaith capio terfynol.

Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid bod hynny’n cynrychioli darpariaeth ddigonol ym marn y Cyngor, a nodwyd bod y rhesymau wedi eu egluro yn y llythyr drafft a oedd eisoes gerbron y Pwyllgor.

**b) Datganiadau Cyfrifon 2009/10 y Gronfa Bensiwn**

Fel yr uchod, adroddodd Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru bod y Cyngor yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol i gyflwyno sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2010, yn ogystal â swm a natur asedau a rhwymedigaethau’r gronfa yn y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny, ar wahân i rwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion eraill ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol am gynnal archwiliad ac adrodd os ydynt o’r farn bod yr adroddiadau’n cyflwyno sefyllfa ariannol y gronfa bensiwn yn deg ar ddiwedd blwyddyn. Hysbysodd bod yr Archwilydd Penodedig yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio diamod ar gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd am 2009/10

Fodd bynnag, wrth lunio’r farn hon ar y datganiadau ariannol, ystyriwyd addasrwydd y datgeliadau a wnaed yn y datganiad o asedau net a’r nodyn ar fuddsoddiadau ecwiti preifat a gaiff eu cario ar eu gwerth teg o £35m. Oherwydd yr ansicrwydd cynhenid sy’n gysylltiedig â gwerth buddsoddiadau o’r fath, sy’n deillio o’r ffaith nad oes marchnad hylifol, gall gwerth teg y buddsoddiadau hyn fod yn wahanol i’w gwerthoedd gwireddadwy.

Mewn ymateb i’r uchod, hysbysodd y Pennaeth Cyllid bod Cronfa Bensiwn Gwynedd yn buddsoddi mewn amrediad eang o asedau er mwyn gwasgaru’r

risg, ac er mwyn isafu'r risg ymhellach, fe benderfynodd y Pwyllgor Pensiynau yn 2007 fuddsoddi 5% o'r gronfa mewn ecwiti preifat. Oherwydd natur y math hwn o fuddsoddiad, mae'r cyfalaf a fuddsoddwyd mewn ecwiti preifat wedi ei gloi i fyny am nifer o flynyddoedd cyn i'r gronfa weld dychweliadau.

Codwyd cwestiynau gan rhai o'r aelodau ar yr adroddiad ac ymatebodd y swyddogion iddynt gan gynnwys cadarnhau bod ansicrwydd cynhenid yn gysylltiedig â gwerth buddsoddiadau mewn ecwiti preifat a'i fod yn arfer da gan nifer o gronfeydd pensiwn i fuddsoddi cyfran o'r gronfa mewn asedau o'r fath.

**iii) Llythyrau Cynrychiolaeth**

Yn dilyn y trafodaethau ar gyfrifon terfynol 2009/10, cyflwynodd y Pennaeth Cyllid lythyrau drafft at yr Archwilydd Penodedig gan y Pwyllgor Archwilio. 'Roedd y "llythyrau cynrychiolaeth" hyn yn cynnwys gosodiadau ynglyn â datganiadau ariannol y Cyngor a datganiadau ariannol y Gronfa Bensiwn ar gyfer 2009/10 gan ymdrin ag amrywiol faterion gan gynnwys asedau, rhwymedigaethau, buddsoddiadau a rheolaeth fewnol. Eglurodd iddo ddrafftio'r sylwadau ar ran "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu", yng Nghyngor Gwynedd, sef y Pwyllgor Archwilio.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid bod y rhan "rhwymedigaethau" o'r llythyr am gyfrifon y Cyngor yn ymdrin gyda darpariaeth y Cyngor ar gyfer capio safle Cilgwyn, a drafodwyd yn flaenorol, tra bod y rhan "buddsoddiadau" o'r llythyr am gyfrifon y Gronfa Bensiwn yn ymdrin gyda gwerth yr ecwiti preifat.

Diolchwyd i'r holl swyddogion perthnasol am y gwaith ar y cyfrifon.

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Archwilio, gyda'r grym a ddirprwywyd gan y Cyngor i fod "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" yng nghyswllt cymeradwyo'r datganiadau ariannol statudol a'r archwiliad perthnasol, yn cymeradwyo'r datganiadau ariannol statudol diwygiedig, yn derbyn adroddiadau perthnasol Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn awdurdodi'r Pennaeth Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor i arwyddo'r "llythyrau cynrychiolaeth" a'u cyflwyno i Archwilydd Penodedig Swyddfa Archwilio Cymru.**

**6. RHEOLAETH TRYSORLYS 2009/10**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid ar wir ganlyniadau gweithgaredd rheolaeth trysorlys y Cyngor yn ystod 2009/10, o'i gymharu yn erbyn y strategaeth a sefydlwyd am y flwyddyn ariannol honno ym mis Chwefror 2009. 'Roedd yr adroddiad yn manylu ar sefyllfa portffolio rheolaeth trysorlys Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2009 ac ar 31 Mawrth 2010, cyfraddau llog, benthyca, aildrefnu dyledion, buddsoddiadau a chydymffurfiad â chyfyngiadau'r trysorlys.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

**7. RHEOLAETH TRYSORLYS 2010/11 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid ar weithgaredd rheolaeth trysorlys y flwyddyn gyfredol. Nodwyd bod Côd Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys yn

cynnwys yr angen i'r Cyngor a'r Gronfa Bensiwn fonitro polisiau ac arferion rheolaeth trysorlys.

Nododd y Pennaeth Cyllid i'r Pwyllgor Pensiynau ar 29 Mawrth 2010 wneud cais i'r Cyngor ganiatau i arian tros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda llif-arian cyffredinol y Cyngor o 1 Ebrill 2010 ymlaen.

Nododd hefyd bod y Côd Ymarfer yn argymell y dylid hysbysu aelodau o weithgareddau Rheolaeth Trysorlys o leiaf dwywaith y flwyddyn. 'Roedd yr adroddiad yma'n sicrhau bod yr awdurdod hwn ynghyd â'r Gronfa Bensiwn yn croesawu arfer gorau yn unol ag argymhellion Côd Ymarfer CIPFA.

Manylodd ar gynnwys yr adroddiad sef yr economi a digwyddiadau, rheoli dyledion, gweithgarwch buddsoddi, cydymffurfio â dangosyddion darbodus a'r rhagolygon ar gyfer cyfraddau llog. Cyfeiriodd yn benodol at newidiadau yn nheilyngdod credyd rhai o'r banciau a restrir yn Atodiad A.

Aeth y Pennaeth Cyllid ymlaen i gyfeirio at Atodiad B, ac i egluro'r terfyn awdurdodedig a'r ffin weithredol ar gyfer dyledion allanol. Hysbysodd y swyddog na thorrwyd y terfyn awdurdodedig, a oedd yn £160m ar gyfer 2010/11. Fodd bynnag, aethpwyd tros y ffin weithredol o £135m am gyfnod rhwng 1 a 15 Ebrill 2010 pan oedd benthyca yn £137.5m. Digwyddodd hyn oherwydd yr oedi fu yn y trosglwyddiad stoc tai o 29 Mawrth i 12 Ebrill 2010. Seliwyd y strategaeth am 2010/11 ar y dybiaeth bod y trosglwyddiad am ddigwydd ar 29 Mawrth 2010 ac y byddai £14.1m o fenthyciadau'r PWLB wedi eu had-dalu erbyn 31 Mawrth 2010. Pe byddai hyn wedi digwydd, byddai'r benthyciadau ar 1 Ebrill yn £123.4m ac o fewn y ffin. Yn anffodus oherwydd bod y trosglwyddiad wedi ei ohirio, aethpwyd tros y terfyn hyd nes i'r trosglwyddiad ddigwydd a'r ddyled o £14.1m gael ei had-dalu ar 15 Ebrill 2010. Nododd bod y rhan perthnasol o Gôd Darbodus CIPFA ar gyfer Ariannu Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol, yn nodi mai "amcangyfrif yw'r dangosydd darbodus ar gyfer y ffin weithredol ar gyfer dyled allanol, ac mae'n debyg nad yw'n arwyddocaol os yw'r ffin weithredol yn cael ei thorri tros dro yn achlysurol".

Nodwyd gan aelodau mai dim ond am ychydig o ddiwrnodau y bu benthyca tros y ffin, 'roedd y digwyddiad yn unigryw, 'roedd wedi ei egluro'n llawn, ni fyddai'n digwydd eto ac nid oedd cais i newid gwerth y ffin.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 11.50am